

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

## DYDD GŴYL DEWI HAPUS I CHI I GYD

### Y Gymraeg – DYDD GŴYL DEWI – Bore Coffi

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi ein Bore Coffi y bore 'ma – roedd gweld y neuadd yn llawn rhieni a theuluoedd yn datlu Dydd Gŵyl Dewi yn hyfryd i'w weld. Diolch yn arbennig i aelodau y Pwyllgor y Siarter Iaith a'r staff a drefnodd yr achlysur, i'r GRhA am eu cymorth wrth y stondin ac i TESCO am ddarparu'r pice ar y maen am ddim i ni.

Diolch hefyd am y casgliad tuag at elusen Marie Curie – llwyddwyd i godi £249.60 rhwng gwerthiant y cennin pedr gan y Pwyllgor Dyngarol a'r cyfraniadau tuag at y bore coffi ar ran y Siarter Iaith. Diolch o galon i chi am eich cefnogaeth.




### Parêd Gŵyl Dewi – Mawrth 2<sup>ail</sup>

Cynhelir y Parêd Gŵyl Dewi YFORY gan ddechrau am 1 o'r gloch o Gloc y Dref.

Byddwn ni fel ysgol yn cerdded yn y parêd, ac mae croeso i ddisgyblion yr ysgol a chi fel rhieni a gwarcheidwaid i ymuno gyda ni yn ein parêd.

Mae'r manylion llawn yn y rhaglen – byddwn yn cwrrd wrth gloc tref Aberystwyth am 12:50yp er mwyn cael cychwyn cerdded am 1 o'r gloch. I weld y rhaglen lawn cliciwch [yma](#)



## Rygbi – Mawrth 5<sup>ed</sup> - dymuniadau gorau

Pob dymuniad da i'r tîm bechgyn blwyddyn 5 a 6 - mae'r twrnaint rhanbarth wedi ei drefnu ar gyfer Dydd Mawrth y 5ed o Fawrth yn Ysgol Henry Richard, Tregaron. Bydd angen i'r plant gyrraedd yr ysgol erbyn 8:15yb gyda'u cit ar gyfer chwarae a pheccynau bwyd ar gyfer cinio. Anogwn y plant i wisgo digon o ddillad cynnes – mae'n debygol y byddant ar ochr cae rhwng y gemau yn gwyllo ac mae'n debygol o fod yn oer a gwyntog!

## Diwrnod y Llyfr – Mawrth 7<sup>fed</sup>

Bydd cyfle i'r plant ddod â'u hoff lyfrau i'r ysgol gyda nhw ar Ddiwrnod y Llyfr ddydd Iau nesaf. Byddwn yn annog pawb i ddarllen yn ystod y dydd, ac felly **mae croeso i bawb wisgo eu dillad eu hunain – eu dillad cyffyrddus** – er mwyn ymlacio a darllen yn ystod y dydd. Os hoffent ddod â rhywbeth fel clustog i'w helpu i ymlacio mae croeso iddynt wneud. Deallwn hefyd y bydd rhai yn awyddus i wisgo lan fel cymeriadau o lyfr – mae pob croeso iddynt wneud hyn, ond dydyn ni ddim am annog hynny – nac annog neb i fynd i brynu gwisgoedd arbennig. **Dathlu llyfrau** fydd prif ffocws y dydd.

## Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd, Ceredigion – Mawrth 9<sup>fed</sup>

Cynhelir yr Eisteddfod Rhanbarth yn Neuadd Pontrhydfendigaid (SY25 6BB) ar ddydd Sadwrn y 9fed o Fawrth 2024. Dyma'r [rhaglen](#) ar gyfer y diwrnod. Mae'r Eisteddfod yn cychwyn am 9 o'r gloch y bore. Sylwch fod yr unigolion yn gyntaf, gyda'r Perfformiad Theatrïg o Sgript tua hanner ffordd drwodd, a'r Gân Actol a'r Côr yn nes at y diwedd. Byddaf yn cadarnhau amseroedd gyda chi ddechrau wythnos nesaf.

## Beiblau

Mae aelod o Gymdeithas y Beiblau yn ymweld â Blwyddyn 5 yn wythnosol yr hanner tymor hwn, yn dilyn ymweliadau â Blwyddyn 6 ddechrau'r tymor. Maent yn cynnig Beibl i bawb fyddai'n dymuno derbyn un. Os hoffech dderbyn Beibl am ddim [cliciwch yma](#) os gwelwch yn dda.

## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd y dydd Llun cyntaf wedi gwyliau'r Pasg, Ebrill 8fed, yn ddiwrnod H.M.S (Hyfforddiant Staff)  
Bydd tymor yr haf yn cychwyn i blant felly ar ddydd Mawrth y 9fed o Ebrill.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

01/03/2024

[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

## HAPPY SAINT DAVID'S DAY

### **The Welsh language – ST DAVID'S DAY - Coffee Morning**

A big thank you to everyone who came to support our Coffee Morning this morning - it was lovely to see the school hall full of parents and families celebrating St David's Day. Special thanks to the members of the Pwyllgor Siarter Iaith and the staff who organised the event, to the PTA for their help with the stand and to TESCO for providing us with the Welsh Cakes for free.

Thank you also for the collection towards the Marie Curie charity - we managed to raise £249.60 between the sale of daffodils by the Humanitarian Committee and the contributions towards the coffee morning on behalf of the Siarter Iaith.




### **Saint David's Parade**

The St David's Day Parade will be held TOMORROW starting at 1 o'clock from the Town Clock.

We as a school will be walking in the parade, and school pupils along with you as parents and guardians are welcome to join us in our parade. Full details are in the programme - we will meet at the Aberystwyth Town Clock at 12:50pm to start walking at 1 o'clock.

To see the full programme click [here](#)



### **Rugby – March 5<sup>th</sup>**

We wish the year 5 and 6 boys rugby team well in the regional tournament held on Tuesday the 5th of March at Ysgol Henry Richard, Tregaron. The children will need to arrive at Ysgol Gymraeg by 8:15am with their kit and packed lunch. We advise the children to wear plenty of warm clothes - it is likely that they will be on the side of the field between the games watching and it is likely to be cold and windy!

### **World Book Day – March 7<sup>th</sup>**

The children will have the opportunity to bring their favourite books to school with them next Thursday on World Book Day. We will encourage everyone to read during the day, and therefore everyone is welcome to wear their own clothes - their comfortable clothes - in order to relax and read during the day. If they would like to bring something like a cushion to help them relax and feel comfortable, they are welcome to do so.

We also understand that some will want to dress up like characters from a book - they are welcome to do this, but we do not want to encourage anyone to go and buy special costumes. **Celebrating books** will be our main focus.

### **Urdd Region Eisteddfod, Ceredigion – March 9th**

The Regional Eisteddfod will be held in Pontrhydfendigaid Hall (SY25 6BB) on Saturday the 9th of March 2024.

This is the [programme](#) for the day. The Eisteddfod starts at 9 o'clock in the morning. Note that the individuals are first, with the Theatrical Performance from a Script about halfway through, and the Can Actol and Choir closer to the end. I will confirm times with you early next week.

### **Bibles**

A member of the Bible Society visits Year 5 weekly this half term, following visits to Year 6 at the beginning of term.

They are offering a Bible to everyone who would like to receive one. If you would like to receive a free Bible please [click here](#).

### **Half Term Calendar**

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

### **Important dates next half term**

The first Monday after the Easter holidays, April 8th, will be an I.N.S.E.T day (Staff Training)

The summer term will therefore start for children on Tuesday the 9th of April.

**If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.**

Yours sincerely,

**Gareth L James**

**Acting Headteacher**

**01/03/2024**

 [www.ysgolgybraeg.cymru](http://www.ysgolgybraeg.cymru)